

# Ailystyried Biliau'r Cynlluniad a basiwyd

Hysbysiad Hwylus

Medi 2012

## Cyflwyniad

Unwaith y bydd y Cynulliad wedi pasio Bil yng Nghyfnod 4,<sup>1</sup> mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*<sup>2</sup> ("Deddf 2006") yn darparu y caiff ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol<sup>3</sup> gan Glerc y Cynulliad, ond dim ond ar ôl i'r ffenestr o bedair wythnos, sef y "cyfnod hysbysiad" ddod i ben.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Deddf 2006 yn caniatáu i Filiau'r Cynulliad gael eu herio drwy un o ddwy ffordd:

- Cyfeiriad at y Goruchaf Lys gan naill ai Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Dwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU.
- Gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

Os bydd un o'r ddwy her yn llwyddiannus, mae Deddf 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ailystyried y Bil er mwyn caniatáu i'r darpariaethau mewn Bil a oedd yn cael eu herio gael eu diwygio er mwyn cael gwared ar y broblem a arweiniodd at y cyfeiriad neu'r gorchymyn, gan felly alluogi i fwrw ymlaen â'r Bil.

## Cyfeiriadau at y Goruchaf Lys gan y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol

Mae Deddf 2006 yn cynnig dull lle gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol herio un o Filiau'r Cynulliad ar sail gyfreithiol drwy gyfeirio cwestiwn ynghylch a yw'r Bil o fewn pwerau deddfu'r Cynulliad at y Goruchaf Lys i wneud penderfyniad.

Os yw'r Goruchaf Lys yn penderfynu bod y Bil (neu ran o'r Bil) y tu allan i bwerau deddfu'r Cynulliad, bydd y Rheolau Sefydlog yn galluogi unrhyw Aelod Cynulliad i gyflwyno cynnig i ddechrau trafodion ailystyried. Os bydd y Goruchaf Lys yn dod i'r casgliad bod y darpariaethau perthnasol yn y Bil o fewn pwerau'r Cynulliad, gellir bwrw ymlaen â'r Bil heb unrhyw gyfraniad pellach gan y Cynulliad na chyfraniad seneddol i gael Cydsyniad Brenhinol a dod yn gyfraith.

Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall cael penderfyniad gan y Goruchaf Lys gymryd llawer iawn o amser, yn enwedig os yw'r Goruchaf Lys yn cyfeirio cwestiwn at Lys Cyfiawnder Ewrop ("ECJ") i gael gwrandawriad rhagarweiniol. Felly, er mwyn osgoi oedi diangen mae Deddf 2006 yn cynnig ffordd i'r Cynulliad ailystyried y Bil ar unwaith.

Os bydd y Cynulliad yn penderfynu ailystyried y Bil, rhaid i Glerc y Cynulliad hysbysu swyddog y gyfraith a wnaeth yr her wreiddiol (naill ai'r Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol) a fydd wedyn yn gorfod gwneud cais i dynnu'r cyfeiriad at y Goruchaf Lys yn ôl. Mewn achosion o'r fath, ni fydd Cyfnod Ailystyried y Bil yn digwydd yn y Cynulliad nes bod y cais

<sup>1</sup> Gweler *Hysbysiad Hwylus: Cyfres y Cyfansoddiad 9 – Deddfau'r Cynulliad a'r Broses Ddeddfu* am ragor o wybodaeth am y gwahanol gyfnodau ym mhroses ddeddfu'r Cynulliad.

<sup>2</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32) (Saesneg yn unig)

<sup>3</sup> Gweler *Hysbysiad Hwylus: Cyfres y Cyfansoddiad 8 – Y Sêl Gymreig a Breinlythyrau* am ragor o wybodaeth am Gydsyniad Brenhinol.

i dynnu'r cyfeiriad yn ôl wedi'i gadarnhau'n ffurfiol gan y Goruchaf Lys.

## Gorchmynion a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Caiff Bil ei ailystyried hefyd os caiff gorchmyn ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y ffenestr pedair wythnos ar ôl i'r Bil gael ei basio yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud orchymyn o'r fath os oes ganddo sail dros gredu'r canlynol:

- Byddai'r Bil yn cael effaith andwyol ar unrhyw fater nad yw o fewn pwerau deddfu'r Cynulliad;
- Gallai'r Bil gael effaith andwyol difrifol ar adnoddau dŵr yn Lloegr, y cyflenwad dŵr yn Lloegr neu ansawdd y dŵr yn Lloegr;
- Byddai'r Bil yn cael effaith andwyol ar y gwaith o weithredu'r gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr; neu
- Byddai'r Bil yn anghyson ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol neu fuddiannau amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol.

Byddai'n rhaid i orchymyn o'r fath nodi'r rhesymau penodol dros wahardd y Clerc rhag cyflwyno'r Bil a byddai'n ddarostyngedig i weithdrefn negyddol yn un o'r ddau Dŷ yn Senedd y DU. Byddai'n rhaid i'r gorchymyn fod mewn grym cyn y gallai'r Cynulliad fwrw ymlaen i ailystyried y Bil dan sylw.

## Beth sy'n digwydd yn y Cyfnod Ailystyried?

Amlinellir y gweithdrefnau ar gyfer ailystyried Bil yn Rheolau Sefydlog 26.52 i 26.56 fel y nodir isod:

- Yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys neu pan fydd gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwahardd Bil rhag cael Cydsyniad Brenhinol yn dod i rym, mae Rheolau Sefydlog yn galluogi unrhyw Aelod Cynulliad i wneud cynnig i ddechrau trafodion ailystyried.
- Os derbynnir y cynnig, gellir cynnal y trafodion ailystyried mewn perthynas â'r Bil. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol bod y trafodion yn y Cyfnod Ailystyried yn cael eu gwneud yng nghyfarfod llawn y Cynulliad.
- Ni ellir diwygio Bil yn y Cyfnod Ailystyried oni bai fod y gwelliannau yn cael eu cyflwyno er mwyn datrys y mater sy'n destun penderfyniad y Goruchaf Lys neu Orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.
- Yn wahanol i drafodion Cyfnod 3 (lle mae gan y Llywydd bŵer i ddethol a dad-ddethol gwelliannau derbyniadwy), ni ellir dethol gwelliannau yn y Cyfnod Ailystyried, felly gellir cynnig pob gwelliant derbyniadwy a gyflwynwyd.
- Ar ôl ystyried y gwelliannau i'w cynnig, ni ellir cynnal dadl bellach ar y Bil. Yn lle hynny, gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo'r Bil diwygiedig yn unig. Mae Rheolau Sefydlog yn nodi na ellir diwygio cynnig o'r fath.

Heblaw am y gwahaniaethau uchod, mae'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried (gan gynnwys y trefniadau cyflwyno ar gyfer gwelliannau) fwy na lai yr un fath â Chyfnod 3 y broses ddeddfu.

## Ailystyried pellach

Mae Bil a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn y Cyfnod Ailystyried unwaith eto yn agored i her gyfreithiol gan y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol neu i orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn union yr un ffordd ag yr oedd ar ôl iddo gael ei basio yn y lle cyntaf. Nid oes cyfyngiad ar nifer y troeon y gellir ailystyried Bil yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cynulliad.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **AILYSTYRIED BILIAU A BASIWDYD**, cysylltwch ag **OWAIN ROBERTS** ([owain.roberts@cymru.gov.uk](mailto:owain.roberts@cymru.gov.uk)), Y Gwasanaeth Ymchwil.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: [cynulliadcymru.org/research](http://cynulliadcymru.org/research)

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at [Research.Service@cymru.gov.uk](mailto:Research.Service@cymru.gov.uk)

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif Ymholiad: 12/2336**

**Owain Roberts**